# Diweddariad am Strategaeth Cysgu ar y Stryd Caerdydd—Ionawr 2020

## Monitro Cysgu ar y Stryd (Hydref 2019 - Ionawr 2020)

Ers Ebrill 2019, mae cyfanswm o **158** o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd wedi cael cymorth i symud i lety drwy ymyriadau amlasiantaeth, **67** o'r rhain yn ystod y cyfnod rhwng mis Hydref a mis Ionawr.

Derbyniodd **37** o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd asesiad digartrefedd yn uniongyrchol gan y Gwasanaethau Allgymorth.


| Hyd 2019 - Ion 2020 | Hyd | Tach | Rhag | Ion |
|---|---|---|---|---|
| Cyfanswm y Bobl sy'n Cysgu ar y Stryd (cyfartaledd dros 4 wythnos) | 68 | 63 | 55 | 47 |
| Cyfartaledd 4 mis | 58 | | | |
| Dim Cysylltiad Lleol (ar ddiwedd y mis) | 10 | 27 | 24 | 19 |
| AEE – Dim Budd-dal Tai (ar ddiwedd y mis) | 4 | 4 | 3 | 3 |

Cafodd **21** o gleientiaid ganlyniadau llwyddiannus drwy'r Gwasanaeth Ailgysylltu Digartrefedd.

**Anghenion Cymorth** (yn Ionawr 2020) - nododd **72%** o bobl a oedd yn cysgu ar y stryd y prif anghenion am gymorth sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau, **24%** ar gyfer iechyd meddwl a **4%** ar gyfer alcohol.

## Tueddiadau Cysgu ar y Stryd yn y Gaeaf

O'u cymharu â'r blynyddoedd diwethaf, mae lefelau cysgu ar y stryd yng Nghaerdydd wedi gostwng yn sylweddol y gaeaf hwn, er bod nifer y bobl sydd angen cymorth wedi cynyddu. Cyflawnwyd hyn drwy ddarpariaeth ychwanegol o lety brys o ansawdd da a gwell ymgysylltiad a chefnogaeth drwy'r Timau Allgymorth ac Amlddisgyblaeth. Mae hwn yn gam cyntaf cadarnhaol ond cydnabyddir bod rhaid i wasanaethau fod yn barod i barhau i addasu i'r hyn sy'n amgylchedd sy'n newid yn gyflym.




***Ar 31 Ionawr, dim ond36 o bobl yn cysgu ar y stryd a gofnodwyd yng Nghaerdydd, gostyngiad pellach yn erbyn y cyfartaledd misol o 47.***

## Tîm Amlddisgyblaeth

Hyd yma, mae'r Tîm Amlddisgyblaeth wedi derbyn **367** o atgyfeiriadau, gyda **323 o achosion wedi'u hagor** i weithwyr arbenigol. O'r **168 achos sydd wedi'u cau**, mae **121 cleient (72%)** wedi cael llety neu gadw eu llety presennol.

HUGGARD, Helping The Homeless · thewallich atal digartrefedd • preventing homelessness · CARDIFF CAERDYDD · YMCA · THE SALVATION ARMY

## Tai yn Gyntaf

Mae Tai yn Gyntaf yn cael llwyddiant o ran rhoi llety i bobl sy'n cysgu ar y stryd sydd ag anghenion cymorth cymhleth ac uchel, gan gynnwys y bobl gyntaf sydd wedi gadael y carchar i gael llety trwy'r cynllun. Ar ddiwedd mis Ionawr roedd cyfanswm o **29 tenantiaeth fyw** ar draws y tri phroject (Cyngor Caerdydd, Byddin yr Iachawdwriaeth a Chyngor Caerdydd/Carchar Ei Mawrhydi Caerdydd), gyda **15** cleient arall yn cael **cymorth cyn tenantiaeth.** Ystyriwyd bod **94%** o gleientiaid **Tai yn Gyntaf** wedi torri cylch digartrefedd.

## Pebyll Canol y Ddinas

Mae ymgysylltu dyddiol â defnyddwyr pebyll gan y Gwasanaethau Allgymorth wedi parhau, gan arwain at ostyngiad sylweddol yn nifer y pebyll yng nghanol y ddinas ers dechrau 2019. **Ar ddiwedd Ionawr 2020, dim ond 4 pebyll oedd yn y ddinas.** Mae cyfarfodydd amlasiantaeth rheolaidd yn cael eu cynnal ynghylch pob unigolyn ac mae cynlluniau gweithredu wedi'u teilwra yn cael eu creu. Gweler canlyniadau llety isod:

| Cefnogi Preswylwyr Pebyll i Gael Llety Chwefror 2019 - Ionawr 2020 | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llety Brys Dros Nos | Hostel y Rheng Flaen | Llety â Chymorth | Dychwelyd i'w heiddo eu hunain | Gwasanaethau Adsefydlu | Project Pobl sy'n Cysgu ar y Stryd | CYFANSWM |
| 27 | 4 | 4 | 7 | 1 | 4 | 47 |

## Darpariaeth Tywydd Oer Newydd yng Nghampfa'r YMCA


Darpariaeth Tywydd Oer Newydd yng Nghampfa'r YMCA

Mae fformat newydd o Ddarpariaeth Tywydd Oer wedi agor yng Nghampfa'r YMCA, gan gynnig hyd at 12 uned llety brys o ansawdd da a chefnogi ymrwymiad Caerdydd i 'dim ail noson mas'. Mae mynediad cyflym i'r math hwn o lety yn golygu bod unigolion yn llawer llai tebygol o gael eu dal yn y patrwm o gysgu ar y stryd ac agweddau negyddol eraill ar weithgarwch diwylliant y stryd.

Mae adborth gan gleientiaid wedi bod yn gadarnhaol iawn, gyda llawer yn nodi eu bod yn teimlo'n ddiogel ac yn cael croeso yn y llety. Mae cynllun y mannau gwely yn caniatáu mwy o breifatrwydd, yn ogystal â darparu gwelyau gwirioneddol ac mae matresi wedi gwella boddhad defnyddwyr gwasanaethau yn fawr. Yn ogystal, mae loceri unigol wedi lleihau'r pryderon am eitemau personol yn cael eu dwyn ac yn rhoi gwell ymdeimlad o ddiogelwch.

Mae aelodau'r staff yn defnyddio dull sy'n seiliedig ar wybodaeth seicolegol i feithrin perthynas gadarnhaol a chefnogol â'r rhai sy'n aros bob nos. Mae'r mwyafrif helaeth o gleientiaid wedi llwyddo i gadw eu lle, gan roi cyfle iddynt ddechrau ymgysylltu â'r gwasanaethau a gynigir gan Allgymorth a'r Tîm Amlddisgyblaeth.

Mae gallu cynnig lleoliad yn y ddarpariaeth hon wedi rhoi mwy o hyder i weithwyr allgymorth bod y llety yn addas i ddiwallu anghenion cleientiaid; mae defnyddwyr gwasanaeth yn derbyn atgyfeiriad yn ddibynadwy ac yn parhau i ddefnyddio'r lle nes bod dewisiadau symud ymlaen ar gael.